# EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2022

Eisteddfod

**Rhif 87 – Grŵp Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed – (3 – 8 mewn nifer)**
'Cân yn Ofer' – Clive Harpwood

Cainc: Rita, Bethan Bryn (1122) – Stelcian, Cyhoeddiadau Curiad
**Dylid canu pennill 1, 2 a 3, a chanu'r cytgan fel pennill 4**
Trillais neu fwy. Caniateir dyblu lleisiau

## CÂN YN OFER

Pam 'dan ni'n cefnu o hyd ac o hyd
Ar yr anobaith sydd yn y byd?
Pam yr holl falais? Pam yr holl drais?
Mae'n hen bryd i rywun godi ei lais.

Miliwn fan yma, miliwn fan draw,
Pam na all rhywun estyn ei law?
Teimla eu hangen am luniaeth na ddaw,
Agor dy lygaid i'w newyn a'u braw.

Dinesydd bach ffyddlon – rwy'n talu bob treth.
Mae gen i statws, o ryw fath 'ta beth,
Rwy'n ffug-resymegol, rwy'n swnllyd fel gweill,
Fy mhwrpas mewn bywyd yw dilyn y lleill.

Ac mae'r byd eto'n troi a throi,
Ofer yw ceisio ffoi,
Ac mae'r byd eto'n troi a throi,
Troi a throi, troi a throi.